

Y Synhwyr

Darlleniad 1: Caniad Solomon 2: 8 - 3:6

Darlleniad 2: Job 38

O! Dduw, ein Tad, a ddygodd drefn allan o'r tywyllwch ac a greodd y nefoedd a'r ddaear, diolch i ti am ein creu ni ar dy lun a'th ddelw. Lluniaist ni o'r llwch ac anadlaist ynom anadl y bywyd. Diolch am i ti wrth ein llunio roddi inni synhwyr fel y gallwn fwynhau dy greadigaeth. Maddau ein bod ni'n stiwardiaid mor sâl. Gofynnwn i ti flaenllymu ein synhwyr fel y byddwn yn fwy effro i'r gogoniannau o'n cwmpas. Adfer ynom ryfeddod y plentyn fel y gallwn ddotio o'r newydd at gyfoeth dy gread.

Diolch i ti am lygaid i weld. Ymhyfrydwn yn adnewyddiad bywyd yn y gwanwyn - y lili swil yn ymwithio o'r ddaear a'r briallu ym môn y clawdd. Gwelwn arwyddion bywyd newydd wrth weld yr wŷn bach yn prancio yn y caeau. Yna, daw'r haf a'i holl gyfoeth i'n syfrdanu o'r newydd, a phan feddyliwn ein bod wedi gweld eithaf pob prydferthwch fe ddaw'r hydref a'i liwiau ysblennydd. Hyd yn oed yn noethni'r gaeaf, fe welwn harddwch ysgerbydau'r coed a mantell yr eira fel clogyn dros gopa'r mynydd. Agor ein llygaid, Arglwydd, i weld rhyfeddodau dy gread. Gad inni hefyd weld prydferthwch a daioni yn ein cyd-ddynion. Maddau inni ein bod yn fwy parod i weld y beiau. Tyn, O! Arglwydd, y trawst o'n llygaid bob un. Gad inni hefyd godi ein llygaid yn fynych at Groes Calfaria lle y gwelwn nid yr hagrach yn y farwolaeth araf, arteithiol, ond prydferthwch y cariad mawr a amlygwyd yno.

‘Dyma gariad fel y moroedd,
Tosturiaethau fel y lli,
T'wysog Bywyd pur yn marw -
Marw i brynu'n bywyd ni.’

Diolchwn hefyd am gael clustiau i glywed. Eto, diolchwn am gael clywed y synau hyfryd o'n cwmpas - cân yr adar a murmur y nant, sŵn plant yn chwerthin a sŵn y gwynt a'r glaw yn eu tro. Maddau

inni ein bod yn gwneud cymaint o sŵn diangen i darfu ar gydbwysedd sŵn dy gread. Cofiwn am y rhai sy'n gorfod dioddef gormod o sŵn oherwydd eu bod yn byw mewn tai a fflatiau sy'n rhy agos at ei gilydd. Cofiwn am y rhai sy'n byw yn sŵn rhyfel, plant bach na chlywodd erioed sŵn amgenach. Maddau inni'r llygredd a grëwn drwy wneud gormod o sŵn yn ein mynd diddiwedd. Dysg inni werthfawrogi tawelwch, a hyffordda ni i wrando am y llef ddistaw fain.

Diolchwn i ti ein bod yn medru teimlo, O! Arglwydd. Rhyfeddwn wrth weld cyffyrddiadau mor ysgafn, ond O! mor effeithiol, yn y byd o'n cwmpas. Dotiwn at sensitifrwydd planhigion a phryfetach yn eu hymateb i'w gilydd. Dysg ninnau i werthfawrogi'r cyffyrddiad a all ein hiacháu. Diolch am ddwylo meddygon a nyrsys sy'n defnyddio'u cyffyrddiad er lles llawer. Diolch am y rhai a deimlodd y cyffyrddiad dwyfol yn eu bywydau ac a fedrodd rannu'r profiad gyda ni.

Diolchwn ein bod yn medru arogl, Arglwydd. Arogl'r gwyddfïd yn y perthi a rhosynnau haf yn ein gerddi. Diolch am arogl bwyd sy'n codi archwaeth arnom. Dotiwn at y cymysgedd o aroglau a geir mewn ambell siop - ffrwythau ffres a blodau, arogl bara'n crasu ac aroglau coffi a chaws. Diolch amdanynt. Wrth ddiolch, cofiwn gyda gofid am y rhai sydd heb ddim. Cyffeswn unwaith yn rhagor ein hamharoddrwydd i rannu. Cyffeswn hefyd ein bod wedi llygru'r awyr ag aroglau drwg nwyon gwenwynig. Maddau inni, O! Arglwydd, a helpa ni i fyw yn well wrth inni adael i bersawr Rhosyn Saron lenwi ein bywyd.

Tydi, Arglwydd, sy'n rhoddi inni flas ar fyw. Diolch i ti hefyd am y fraint o fedru blasu dy roddion inni mewn bwyd a diod. Rhoddaist inni'r gallu i wahaniaethu rhwng y melys a'r chwerw, a diolch i ti dy fod yn rhoddi nerth inni droi'r dyfroedd chwerwaf eu blas yn felys yn dy gwmni di.

Wrth inni ddiolch, Arglwydd, am dy roddion o synhwyrâu i ni, cyflwynwn i ti bawb sydd wedi colli un neu fwy o'r synhwyrâu - y deillion, y byddar a'r rhai na fedrant arogl, teimlo na blasu. Derbyn hwy fel ninnau i'th ofal, drwy Iesu Grist ein Gwardedwr. Amen.

John Owen